
| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 10 Medi 2024 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Daniel Williams | Emyr Gareth | |
| Dafydd Huws | Elenid Glyn | |
| Eifion Williams | Meleri Jones | |
| Nel Huws | Eleri Wyn Thomas | |
| | Hefyd yn bresennol y Cynghorydd Sir Iwan Huws | |
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Eifion Williams a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elen Gwenllïan Llŷr Evans, Elenid Glyn, Cynog ac Emyr Gareth. | |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **1.2** | Ymgynghoriad system pleidlais sengl drosglwyddadwy Cyngor Gwynedd - trafodwyd y mater wedi eglurhad can y Cynghorydd Sir a phenderfynwyd cefnogi'r system. | |
| **1.3** | Menter Felinheli - derbyniwyd adroddiad gan y cwmni wedi cyfarfod diweddar. Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad. | |
| **1.4** | Tir yr hen reilffordd - cyflwynwyd adroddiad ar gytundebau Cyngor Gwynedd i'r rhai trigolion sydd angen hawl i yrru ar draws rhan o'r hen reilffordd er mwyn parcio a'r tir eu hunain. Mae'r rhan o'r hen reilffordd o dan brydles gan y Cyngor Cymuned ac mae angen hawl i dramwyo ar draws y rhan honno tuag at dir perchnogion adeiladau sydd a'r Ffordd Gaernarfon. Mae'r cytundebau bellach yn fater i Gyngor Gwynedd ar ran y Cyngor Cymuned. Bydd y cytundebau yn bodoli hyd nes bydd y Cyngor Cymuned gyda chynllun pendant ar gyfer y tir. Nid oes cynllun yn bodoli ar hyn o bryd ond penderfynwyd ymchwilio os oedd arian grantiau i gael er mwyn ymestyn y Lon Las fel oedd y bwriad i ddechrau. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd (Active Travel). | |
| **1.5** | Eisteddfod Gadeiriol y Felinheli - trafodwyd cais pwyllgor yr Eisteddfod am gyfraniad i gostau beirniaid a chyfeilyddion. Penderfynwyd rhoi £500 iddynt i'r perwyl hyn o dan Adran 137. | |
| **1.6** | Clwb Chwaraeon Seilo - cyflwynwyd adroddiad ar y mater gan y Cynghorydd Dan Williams. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Cyngor. Fel oedd sawl cwestiwn yn codi o'r adroddiad ac fe benderfynwyd anfon at y Cwmni am eglurhad. Mae'r eitem yma wedi bod yn bwnc trafod mewn dau gyfarfod rhithiol arbennig wedi'r cyfarfod misol. Mae cyfathrebu wedi bod rhwng y Cyngor a chwmni Clwb Chwaraeon Seilo er mwyn cael eglurhad pellach ar rai o'r cwestiynau sydd yn codi yn enwedig i gais ffurfiol am arian oherwydd bod diffyg yn yr arian sydd ei angen er mwyn sicrhau buddsoddiad fan y FAW. Y diffyg yw £10,000. Bydd y mater yma yn fater o drafodaeth bellach yng nghyfarfod misol mis Hydref y Cyngor lle bydd penderfyniad ar y cynnig. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |

| | | |
|---|---|---|
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **3.1** | **Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Gorffennaf a mis Awst 2024 - derbyniwyd.** | **CLERC** |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin a Mis Gorffennaf 2024. | **CLERC** |
| **4.2** | Toiledau - dywedodd y Clerc ei bod wedi siarad â'r adain Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y toiledau er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth a dderbynnir iddynt am y gost o £4000 y flwyddyn gan y Cyngor. Cafwyd gwybod nad os cytunet lefel gwasanaeth ond dealltwriaeth gan y Cynghorau Cymuned a'r Cyngor Sir bod taliad blynyddol o £4000 y flwyddyn er mwyn sicrhau bod toiledau yn parhau ar agor. Cafwyd gwybod hefyd os yw'r Cyngor eisiau paentio'r adeilad yna dim ond sicrhad bod y contractwr sydd yn gweithredu gyda thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Y Cynghorydd Dan Williams am ofyn i'r contractir os oedd yn barod i wneud y gwaith a bod yn barod i roi copi o'r yswiriant i'w anfon at Gyngor Gwynedd. | **CLERC** |
| **4.3** | Cynllun Rheoli Traffig - y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd ag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a chanolbarth Cymru i ofyn pa ddyddiadau fyddai yn gyfleus iddynt gyfarfod yn rhithiol. | **CLERC** |
| **4.4** | Biniau Cae Pêl droed Ffordd Lan y Môr a ger Safle Moria/Ger y Siop - mae ymweliad safle wedi bod ac nid oes gwybodaeth wedi ei dderbyn ers hynny. Mae bin o fewn y Cae Pêl Droed yn fater i Bwrdeistrefol ac nid Gofal stryd. Yr adain fwrdeistrefol yn edrych i mewn i osod bin a'r Cyngor Cymuned yn talu am wasanaeth casglu. Y Clerc i wneud ymholiadau eto gyda'r ddwy adran gysylltiedig â biniau. | |
| **4.5** | Logo - penderfynwyd gofyn i Delwedd i greu logo gan gymryd i sylw syniadau rhai o'r dyluniai sydd wedi eu derbyn oddi wrth yr ysgol. Y Clerc i anfon Cais at Delwedd. | **CLERC** |
| **4.6** | Cyfarfod safle i'r Jeti a'r Slip wedi ei drefnu. Y Cynghorydd Dan Williams i ymweld gyda Swyddog o'r adran Forwrol ar y 11eg o Hydref pan fydd y dŵr yn isel. Croeso i unrhyw un arall sydd ar gael i fod yn bresennol hefyd. | **CLERC** |
| **4.7** | Llwybr Cerrig yr Afon - mae Cyngor Gwynedd yn gwneud rhywfaint o waith cynnal ar hyd y llwybr gan gynnwys ychydig o'r ffensio, tocio coed ac yn y blaen. | **CLERC** |
| **4.8** | Cae Pêl Droed Lan y Môr - trafodwyd y mater y gall defnydd o'r cae yma godi os bydd Cae Clwb Chwaraeon Seilo mewn defnydd. Nid yw ansawdd wyneb y cae yma mewn cyflwr da iawn angen ei hadu a'i rowlio. Penderfynwyd gwneud ymholiadau ar gyfer ei fabwysiadu oddi wrth Cyngor Gwynedd. Ella bod modd i roi offer fel | |

| | | |
|---|---|---|
| | bwrdd ping poing allanol ynddo ac yn y blaen. Y Clerc i wneud ymholiadau. | |
| **4.9** | Gampfa - trafodwyd mai'r safle gorau fyddai'r tir ger parc cadw cychod bach - Y Clerc i wneud ymholiadau ac adran Bwrdeistrefol y Cyngor. | **CLERC** |
| **5.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Dim | |
| **6.0** | **RHEOLAETH** | |
| **6.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | |
| **7.0** | **ASEDAU** | |
| | **Dim adroddiad** | |
| **8.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| | Dim adroddiad | |
| | | |
| **9.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **9.1** | Dim gwybodaeth ychwanegol i'r mis diwethaf. | |
| **10.00** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| | Dim Adroddiad | |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.30 yn y r hwyr.** | |
|  **Llofnod:** | | **Dyddiad: 8/10/24** |